# Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019/20 – 2028/29

**Rhagarweiniad**

1. Hwn yw Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd sy'n cychwyn yn 2019/20.

2. Cynllun Corfforaethol y Cyngor sy'n gosod allan beth yw amcanion a blaenoriaethau gwella'r Cyngor ynghyd a'i amcanion llesiant yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3. Er mwyn cyflawni'r amcanion yma, mae gwasanaethau yn gorfod defnyddio nifer o amrywiol asedau.

4. Cam cyntaf creu'r Cynllun yma oedd gofyn i adrannau'r Cyngor nodi pa gynlluniau cyfalaf yr oeddent angen eu gwireddu dros y 10 mlynedd nesaf er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.

5. Cafodd pob aelod o'r Cyngor gyfle i chwarae rhan yn y broses o flaenoriaethu'r cynlluniau hynny drwy adnabod y flaenoriaeth yr oedd ef neu hi yn ystyried y dylid ei roi i gynllun unigol ac fe ystyriodd y Cabinet yr hyn ddaeth allan o'r broses honno wrth lunio'r Cynllun yma.

6. Heblaw am rai cynlluniau penodol lle 'roedd angen rhoi pwyslais priodol i'r risg oedd ynghlwm a pheidio â chyflawni cynllun penodol, yn gyffredinol , bu i'r Cabinet ddilyn y rhestr flaenoriaeth a nodwyd gan yr aelodau yn ystod y drefn ymgynghori

7. Mae'r Cynllun Asedau yma felly yn cymryd yr holl anghenion gwariant cyfalaf y mae'r adrannau wedi nodi y maent eu hangen er mwyn cyflawni'r hyn sydd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn pwyso a mesur y flaenoriaeth gymharol.

8. Yn amlwg, byddai'r Cyngor yn dymuno cyflawni pob cynllun yr oedd yr Adrannau wedi eu hadnabod ond o ystyried yr hyn a wyddom ar hyn o bryd am yr adnoddau fydd ar gael i'r Cyngor dros y cyfnod 10 mlynedd nesaf, ni fydd yr adnoddau hynny yn caniatáu i ni wneud pob un cynllun.

9. Wedi dweud hynny, fe all y sefyllfa newid dros y cyfnod hwnnw a byddwn yn adolygu'r cynllun hwn yng ngoleuni unrhyw adnoddau pellach a ddaw neu unrhyw newid mewn amgylchiadau.

10. Bydd y Cynllun yma yn gosod strategaeth ar gyfer gwariant gyfalaf ar gyfer y 10 mlynedd i ddod a hwn felly fydd yn gyrru ein cyllidebau cyfalaf blynyddol.

## ADNODDAU

11. Cyd-destun allweddol i hyn oll wrth gwrs yw'r adnodd sy'n debygol o fod ar gael i ariannu'r Cynllun.

12. Dengys lefel ein setliad cyfalaf presennol ein bod yn derbyn £6.6m o adnodd cyfalaf bob blwyddyn. Dros gyfnod o 10 mlynedd felly rhagwelir y bydd gennym £66m.

13. Ar ben hynny, mewn datganiad cyllidebol diweddar mae Prif Weinidog Cymru wedi datgan y bydd yn darparu £100m ychwanegol i awdurdodau lleol i wario ar gyfalaf dros gyfnod o 3 blynedd. Mae'r ddwy elfen gyntaf eisoes yn cael eu talu i ni yn 2018/19 a 2019/20 ac amcangyfrifir mai tua £4.5m fydd ein siâr ni o'r adnodd yma. Mae yna hefyd £1.4m o gronfa'r hen Gynllun Asedau ar gael o hyd yn gwneud cyfanswm adnoddau ar gael dros y cyfnod 10 mlynedd o **£72m**.

14. Mae'n bosibl dros y 10 mlynedd nesaf y byddwn yn gweld mwy o adnoddau yn dod i'n rhan drwy grantiau penodol at ddibenion penodol a dylem fod yn fyw i hyn oll er mwyn ceisio uchafu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ein hanghenion craidd.

15. Dros gyfnod o 10 mlynedd mae yna debygolrwydd cryf hefyd y byddwn yn gwaredu rhai asedau fydd yn ychwanegu at yr adnodd sydd ar gael ond gan fod Cynllun Cyfalaf y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2009-2018 eisoes wedi ei seilio ar werthu nifer fawr o asedau nad oedd eu hangen arnom, ni welir cyfleoedd amlwg ar hyn o bryd i ychwanegu gydag unrhyw sicrwydd at yr adnodd sydd gennym.

16. Nodir isod yr anghenion gwario sydd wedi cael eu hadnabod gan y gwahanol adrannau. Nodir y cynlluniau mewn 3 grŵp -

    - Cynlluniau y mae modd eu cyflawni o fewn yr amlen adnoddau sydd gennym;
    - Cynlluniau lle bydd yn rhaid eu cyfarch drwy ddull arall;
    - Cynlluniau lle bydd angen aros i weld a allwn ychwanegu at yr adnodd fydd gennym cyn y gellir eu cyflawni.

17. Os daw adnoddau pellach i'n rhan unai drwy grantiau penodol i gynlluniau sydd yn derbyn cymeradwyaeth neu fel arall byddwn yn blaenoriaethu'r cynlluniau na ellir eu cymeradwyo ar hyn o bryd yn y drefn a nodir yn rhan C isod sy'n cynrychioli'r drefn flaenoriaeth a roddwyd iddynt gan y Cyngor.

## Rhan A : CYNLLUNIAU Y MAE MODD EU CYFLAWNI O FEWN YR AMLEN ADNODDAU SYDD GENNYM

**Adran Addysg**

18. **Cynllun posibl ar gyfer sicrhau darpariaeth ol-16 addas ar gyfer Arfon. (£6,300,000)** Mae yna adolygiad o'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngwynedd yn mynd rhagddo, gyda ffocws amlwg ar ysgolion Arfon, ble mae disgyblion ôl-16 yn derbyn eu haddysg yn yr ysgolion uwchradd yn hytrach na mewn darpariaeth Coleg trydyddol fel sy'n digwydd yng ngweddill y sir. Bydd Cyngor Môn yn edrych ar y ddarpariaeth hon ar yr un pryd. Er na wyddom eto beth yn union fydd casgliad yr ymchwil, gan dderbyn y bydd yna bosibilrwydd cryf y bydd yna angen gwariant cyfalaf er mwyn cyflawni unrhyw ateb boed drwy'r ysgolion neu unrhyw ateb arall, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cytuno mewn egwyddor i gynnwys yr arian cyfatebol fel rhan o'r buddsoddiad ym Mand B y Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif sy'n golygu y byddwn yn derbyn 65% o gost posibl y cynllun (£18m) drwy grant. Mae'n bosibl y bydd y gost yn llai yn ddibynnol ar yr ateb a ddaw i'r amlwg yn yr adolygiad.

19. **Ysgol newydd i ddisodli adeilad Ysgol Treferthyr, Criccieth sydd mewn cyflwr difrifol. (£1,750,000)** Mae adeilad presennol Ysgol Treferthyr mewn cyflwr difrifol (yr unig ysgol yng Ngwynedd sydd yng Nghategori C neu is). Mae'r arian cyfatebol ar gyfer ysgol newydd wedi'i gytuno mewn egwyddor yng nghynlluniau Band B Llywodraeth Cymru sy'n golygu y bydd 65% o gyfanswm cost y cynllun (£5m) yn dod drwy grant .

20. **Uwchraddio cyflwr ac addasrwydd ysgolion. (£3,570,000)** Mae'r Cyngor wedi buddsoddi eisoes yn y maes ysgolion er mwyn codi ansawdd ein hysgolion ac mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod hynny drwy gytuno mewn egwyddor i neilltuo swm cyfatebol o arian ym Mand B er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i wireddu'r rhaglen ymhellach sy'n golygu y bydd 65% o gyfanswm cost y cynllun (£10.2m) yn dod drwy grant.

**Adran Amgylchedd**

21. **Cynnal astudiaethau dichonoldeb a gwaith rhagbaratoi er mwyn denu grantiau tuag at gynlluniau ffyrdd ac amgylcheddol. (£750,000).** Mae cyflawni astudiaethau dichonoldeb a gwneud gwaith rhagbaratoi yn caniatau i ni ddwyn perswâd ar ystod o gyrff cyhoeddus a thirfeddianwyr i ariannu cynlluniau o fewn y sir ac yn ei galluogi i ymateb yn sydyn pan ddaw grantiau ar gael. Ers 2005, mae'r Cyngor wedi gallu cyflawni gwerth oddeutu £75 miliwn o brosiectau cyfalaf i wella isadeiledd priffyrdd ac mae rhan helaeth o'r rhain (89%) wedi eu hariannu gyda grantiau neu gyfuniad o grantiau, gyda 70% wedi eu cefnogi gydag astudiaeth dichonoldeb. Byddai

methu gallu cyflawni astudiaethau dichonoldeb yn lleihau'r gallu i wneud hyn. Roedd yr Adran wedi nodi fod angen £1m dros oes y Cynllun ond nid yw'r adnodd gennym i fedru cwrdd â'r swm hwnnw yn gyfangwbl ac felly byddwn yn darparu £750,000 ar gyfer y maes yma.

22. **Cynnal y rhwydwaith lonydd glas. (£140,000)** Mae'r rhwydwaith lonydd glas yn denu dros 300,000 o siwrneiau yn flynyddol ac mae wedi'i ddatblygu dros yr 20 mlynedd ddiwethaf ar gost o oddeutu £5 miliwn (drwy grantiau allanol yn bennaf). Fodd bynnag mae angen eu cynnal ac oni bai ein bod yn gwneud y gwaith cynnal angenrheidiol yma mae yna berygl y byddai'n rhaid cau rhai rhannau.

23. **Gwaredu asbestos yn ein hadeiladau.(£1,708,000)** Mae'r Cyngor yn flynyddol yn archwilio pob darn o asbestos sydd yn ein hadeiladau, yn unol â'r gofynion statudol. Os bydd yr asbestos mewn cyflwr peryglus, mae'n rhaid ei waredu neu fel arall bydd yr adeilad yn gorfod cau. Mae oblygiadau difrifol i iechyd defnyddwyr adeiladau os na reolir asbestos yn ofalus iawn. Hwn yw'r swm yr amcangyfrifir y bydd ei angen dros y blynyddoedd er mwyn cwrdd â'r angen.

24. **Adnewyddu ein sustemau puro dŵr yfed o fewn y manddaliadau (£400,000).** Mae rhai manddaliadau wedi eu lleoli mewn llefydd anghysbell sydd heb fynediad at gyflenwad dŵr cyhoeddus. Mae'r teuluoedd sy'n byw yno yn ddibynnol ar allu defnyddio dŵr o fynnon neu gronfeydd naturiol. Nid yw'r dŵr hwn yn addas i'w yfed heb ei buro ac mae'r systemau puro bellach yn hen ac yn dirwyn i ben eu hoes.

**Adran Economi a Chymuned.**

25. **Materion Iechyd a Diogelwch mewn canolfannau hamdden (£250,000)** – mae asesiadau iechyd a diogelwch wedi dangos fod yna risgiau oherwydd nad ydym wedi gwahanu traffig a phobl yn ddigonol yng Nghanolfannau Hamdden Plas Silyn, Penygroes a Chanolfan Denis Arfon, Caernarfon. Mae angen cyfarch hynny drwy gyflawni gweithfeydd i wella'r sefyllfa.

26. **Parc Padarn, Llanberis (£175,000)** - Mae'r safle yma yn amlwg yn llawn risgiau gan mai chwarel ydyw. Mae'n cynnwys rhwydwaith o lwybrau sydd yn agored i'r cyhoedd - a hynny drwy hen chwareli a choedwig hynafol. Mae'r ardal chwareli yn cynnwys nifer o hen adeiladau sydd bellach yn dirywio ac yn disgyn (toeau, waliau ac ati). Yn ogystal, mae nifer sylweddol o goed (dros 100 o goed derw) wedi disgyn mewn stormydd diweddar. Ystyrir fod angen cyflawni gwaith er mwyn gwarchod diogelwch ymwelwyr i'r Parc a defnyddwyr llwybrau cyhoeddus perthnasol.

27. **Caeau Chwarae Amlbwrpas (£1,300,000) -** Datblygwyd nifer o gaeau astroturf yn y 90au sy'n cael eu defnyddio'n helaeth gan ysgolion a'r gymuned ehangach. Bellach mae oes y caeau yn dirwyn i ben ac os na ellir eu hadnewyddu yna byddant yn beryglus i'w defnyddio a bydd rhaid eu cau. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar allu ysgolion i gwrdd â'r cwricwlwm ymarfer corff ac ar nifer sylweddol o glybiau) pêl droed, hoci, rygbi ayb (rhai plant ac oedolion).

**Adran Blant a Theuluoedd**

28. **Canolfan Maesgeirchen/Ty Cegin (£500,000)** - Mae ein strategaeth ar gyfer cefnogi teuluoedd yn ei ddyddiau cynnar ond un sicrwydd yw bod ardal Maesgeirchen Bangor yn haeddu sylw penodol o ran darparu cymorth. Er bod gan y Cyngor bresenoldeb yno ar hyn o bryd mae yna ddadl fod angen darpariaeth wahanol os ydym am wireddu ein gweledigaeth yn ein strategaeth cefnogi teuluoedd. Er nad ydym hyd yma wedi diffinio yn union beth sydd angen ei wneud, yn amlwg fe fydd angen buddsoddi os am gyflawni'r amcan o weld yr egwyddor o "un gwasanaeth" yn cael ei wireddu a thra bydd modd targedu rhywfaint o grantiau efallai bydd yn rhaid i'r Cyngor gyfrannu hefyd.

**Oedolion Iechyd a Llesiant**

29. **Grantiau Addasiadau Tai (£13,000,000 )** - Mae cyfran sylweddol o'r swm grantiau tai yn wariant statudol ar addasiadau ( tua £1.3m y flwyddyn ) i alluogi pobl anabl allu parhau yn eu cartrefi neu i hwyluso gadael yr ysbyty. Y cyllid yma sy'n talu am Grant Addasiadau Anabl - DFG a'r cynllun man addasiadau i eiddo. Mae yna ddyletswydd arnom i ddarparu addasiadau os yw asesiad wedi nodi ei bod yn hanfodol ac angenrheidiol. Mae addasiadau yn bwysig i hyrwyddo annibyniaeth ac i gefnogi gofalwyr gan osgoi heriau.

30. **Hosteli i'r Digartref (£500,000)** - Mae natur yr adnoddau presennol wedi dyddio ac mae angen buddsoddi ac addasu er mwyn gallu darparu gwasanaeth o safon a chydymffurfio a disgwyliadau o ran ansawdd. Heb uwchraddio, bydd heriau at y dyfodol, o ran gwarchod buddiannau a phreifatrwydd unigolion yn cynyddu, yn enwedig o ran y gofyn presennol i rannu rhai adnoddau fel ystafelloedd ymolchi a cheginau.

31. **Tai Gofal Estynedig (£2,500,000)** - Mae Tai Gofal estynedig yn caniatau i ni gwrdd â gwir anghenion bobl hyn drwy gynnig eiddo iddynt sy'n caniatau iddynt fyw bywydau annibynnol tra'n derbyn cefnogaeth briodol o gefnogaeth. Mae'r galw yn cynyddu a thra rydym yn debygol o fedru datblygu 2 safle o'r fath drwy fanteisio ar grantiau ayb mae yna gyfle i ehangu'r ddarpariaeth i unigolion ac anableddau dysgu, anableddau corff a chyflyrau iechyd meddwl yn ogystal â darpariaeth i bobl hyn yn unig.

Byddai’r ddarpariaeth yn golygu fod unigolion yn cael eu tenantiaeth eu hunain ac yn gallu derbyn cefnogaeth amserol petai angen i’w galluogi i barhau yn annibynnol am gyhyd ag sy’n bosib yn eu cymunedau lleol. Mae yna dystiolaeth fod yn bosib darparu gofal i unigolion ac anghenion gofal dwys iawn o fewn y cynlluniau. Maent hefyd yn galluogi i gyplau allu aros gyda’i gilydd a derbyn cefnogaeth ac yn galluogi teuluoedd i barhau i ddarparu elfennau o gefnogaeth petaent yn dymuno.

32. Roedd yr Adran wedi gofyn am adnodd i gyflawni dau gynllun arall ar gost o £5m. Mae’r Cynllun yn darparu adnodd ar gyfer un gan drosglwyddo’r ystyriaeth o ail gynllun i’w ystyried o ran blaenoriaethau’r Strategaeth Tai.

33. **Hwb Iechyd a Gofal Penygroes (£3,500,000)** - Cynllun blaengar fyddai hwn i ddarparu hwb iechyd a gofal integredig gyda'r cyfle i ddefnyddio'r datblygiad fel catalydd ar gyfer adferiad cymunedol ac economaidd ar yr un pryd. Byddai'r cynllun yn sicrhau ymateb amserol, gan y person mwyaf addas i drigolion yn lleol. Byddai’n datblygu cydweithio ac integreiddio rhwng y gymuned leol, trydydd sector a chyrff statudol i wneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn cwrdd â’r hyn sy’n bwysig i’r gymuned. Mae lleoliad daearyddol Penygroes yn golygu y byddai’r datblygiad o fudd i’r gymuned leol ac i drigolion y Sir yn ehangach. Byddai’r cynllun yn cynnwys darpariaeth tai ar gyfer pobl hyn ac unigolion gyda gofynion penodol ac yn creu cyfle i addasu'r ddarpariaeth gofal a gynigir o gartref preswyl Plas Gwilym. Byddai datblygu cyfleuster offer sy’n galluogi treialu offer arbenigol i sicrhau addasrwydd cyn darparu neu brynu offer eu hunain yn sicrhau gwasanaeth lleol sy’n gallu ymateb yn amserol. Yn yr un modd, mae cyfle yma i gryfhau darpariaeth sirol ar gyfer cefnogi plant a theuluoedd yn enwedig trwy bartneriaethu ar waith ataliol.

34. **Canolfan Dolfeurig, Dolgellau (£1,200,000)** - Yn ein hymgais i sicrhau fod pobl gydag Anableddau Dysgu yn cael byw bywydau cyflawn a chwarae rhan o fewn cymdeithas, rydym yn darparu cyfleoedd iddynt yn ystod y dydd ym Meirionnydd yng Nghanolfan Dolfeurig. Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael ofnadwy ac yn anaddas at ei bwrpas. Mae'n codi sawl pryder o ran materion iechyd a diogelwch. Mae adroddiad yr Adran Eiddo yn nodi y byddai'r gost o drwsio'r adeilad yn iawn i gynnal gwasanaeth am 20-25 mlynedd yn gwneud llai o synnwyr nag adeiladu adnodd llai gyda gofod pwrpasol. Byddai hyn hefyd yn lleihau costau rhedeg a chynnal. Y nod fyddai datblygu hwb cymunedol yn yr adeilad yma er mwyn parhau gwasanaethau presennol ar y safle a datblygu ystod eang o gyfleon dydd a gwaith i oedolion gydag anableddau dysgu yn ne'r Sir. Yn ogystal, bydd modd datblygu ystod o wasanaethau a gwaith grŵp i'w gynnal o'r Hwb.

35. **Cartrefi Henoed (£2,125,000)** – Mae gennym nifer o gartrefi preswyl sydd angen eu haddasu fel bod mod di ni ddarparu gwasanaeth sy’n cyfarch gwir

anghenion ein trigolion i'r dyfodol. Byddai hynny yn golygu datblygu mwy o ddarpariaeth dementia arbenigol; a medru cyfarch anghenion mwy dwys fel anghenion iechyd a chefnogi cyfnod diwedd oes, ynghyd a medru darparu gofal ysbaid ar gyfer anableddau corfforol. Y cartrefi dan sylw yw –

- Cartref Preswyl Hafod Mawddach, Abermaw
- Cartref Preswyl Bryn Blodau, Blaenau Ffestiniog
- Cartref Preswyl Cefn Rodyn, Dolgellau
- Cartref Preswyl Plas Hafan, Pwllheli
- Cartref Preswyl Plas Hedd, Bangor
- Cartref Preswyl Plas Pengwaith, Llanberis
- Cartref Preswyl Tanymarian, Pwllheli

**Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

36. **Atal Dirywiad Cyflwr Ffyrdd (£7,000,000)** - Tra bod cyflwr cymharol ein ffyrdd dosbarth A a B yn ein gwneud yn "ganolig" yn y tablau cenedlaethol, mae cyflwr ein ffyrdd Dosbarth C - sef yr hyd fwyaf sydd gennym yn y 18fed safle drwy Gymru. Nid yw'r gwariant cyfredol ar gynnal ffyrdd (sef cyllideb refeniw o £6.961m) yn ddigon i osgoi dirywiad ac ar y lefel presennol o wariant rhagwelir dirywiad o tua 1% y flwyddyn. I gadw'r ffyrdd ar eu cyflwr presennol, amcangyfrifir y byddai angen buddsoddiad ychwanegol o tua £1m y flwyddyn. Yn naturiol, os am weld gwellhad byddai angen gwario mwy.

37. Byddwn yn derbyn £3.9m o adnoddau ychwanegol ar gyfer ein ffyrdd gan Lywodraeth Cymru fydd yn ddigonol i gyfarch yr angen am dair blynedd gyntaf y cynllun a byddwn yn ystyried darparu £1m y flwyddyn ar ôl hynny os na fydd yna adnoddau pellach yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru tuag at y maes yma.

38. **Adnewyddu Goleuadau Traffig (£650,000)** – Mae angen darparu ar gyfer colofnau a goleuadau traffig sy'n dod i ddiwedd eu hoes. Yn y gorffennol bu modd dygymod gyda'r niferoedd bychan oedd yn codi o'r gyllideb cynnal ffyrdd ond bellach mae'r niferoedd yn cynyddu wrth i fwy ddod i ddiwedd eu hoes.

39. **Adnewyddu Ffensys Diogelwch Ffyrdd Is safonol (£1,000,000)**- Yn y 10 mlynedd gyntaf o'r Cynllun Asedau blaenorol cafodd hanner y Ffensys Diogelwch is-safonol (pyst pren) eu hadnewyddu (34 lleoliad). Mae 34 lleoliad yn weddill i'w hadnewyddu.

40. **Pontydd Diffygiol (£1,778,500)** - Yn dilyn adolygiad o drefniadau cynnal ffyrdd y Cyngor a gyhoeddwyd yn 2016 fe benderfynwyd ymdrin â phontydd drwy symud i drefn archwilio ac asesu pontydd a waliau cynnal

yn seiliedig ar risg (hynny yw, sicrhau fod trefniadau clir a phendant yn eu lle er mwyn sefydlu a thargedu ein prif risgiau). Mae ein hasesiadau yn dangos fod yna nifer o bontydd sydd angen sylw os ydym am barhau i fedru eu defnyddio. Byddai peidio â gwneud hynny yn gallu golygu gosod cyfyngder ar y bont fyddai'n golygu gwyriad neu hyd yn oed cau'r bont yn gyfangwbl. Y pontydd dan sylw yw -

- Pont Mwnwgl y Llyn, Y Bala
- Pont Ffordd Cadfan Tywyn
- Pont Penllyn ger Brynrefail
- Pont Llanystumdwy
- Pont Capel Horeb, Arthog
- Pont Dysynni Tywyn

41. **Llifogydd ar y Brifffordd (£1,000,000)** - Ar hyn o bryd nid oes gennym gyllideb benodol ar gyfer cyflawni man gynlluniau er mwyn osgoi i ddŵr lifo oddi ar y ffyrdd a chreu niwed i eiddo trigiannol. Gwelwyd achosion yn ddiweddar o hynny yn digwydd ac felly bu'n rhaid ystyried defnyddio cyllideb cynnal a chadw ffyrdd i ddelio a'r enghreifftiau gwaethaf. Yn amlwg mae yna oblygiadau i drigolion yn y lleoedd hynny sy'n dioddef yn ogystal ag i enw da'r Cyngor. Fe all fod yna oblygiadau cyfreithiol hefyd. Mae angen darparu cyllideb ar gyfer y fath waith felly.

42. **Darparu Tir Claddu (£682,000)** – Byddai methu a chyflawni'r cynllun yma yn golygu na fyddai gennym ddarpariaeth tir claddu digonol mewn 3 ardal drefol o fewn y sir.

43. **Adnewyddu Pibellau Dwr Stadau Tai (£2,400,000)** - Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 7/6/16 yn nodi fod yna gyfrifoldeb yn disgyn ar y Cyngor i gynnal a chadw pibellau dwr oedd heb eu mabwysiadu oedd yn gwasanaethu tai Cyngor. Bydd y gwaith adnewyddu yma (sy'n cael gwared a phibelli dwr is safonol) yn parhau i'r hir dymor ac amcangyfrifir bod angen y swm yma i wneud hynny dros gyfnod y cynllun. Byddai peidio â'i wneud yn creu risg o achos cyfreithiol yn erbyn y Cyngor ac yn golygu fod tenantiaid CCG yn derbyn cyflenwadau dwr is safonol.

44. **Datblygu ac Adnewyddu Safle Caergylchu (£718,000)** - Mae angen adnewyddu to'r adeilad a chyrraedd gofynion tân er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ailgylchu a throsglwyddo yn parhau.

45. **Datblygu Safle Trosglwyddo Coed Ffridd Arw (£210,000)** - Ar hyn o bryd, dim ond rhan o'r safle gellir defnyddio dan y drwydded i ymdrin â gwastraff a deunyddiau ailgylchu. Bydd yr eithriad i weddill y safle dan y drwydded yn dod i ben ymhen blwyddyn os na fydd system rheoli dŵr wyneb yn cael ei ddarparu yn y safle.

**Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd**

46. **Gweithfeydd Atal Llifogydd (£2,047,800)** - Mae gan yr Adran Ymgynghoriaeth gyfrifoldeb am asesu'r risg o lifogydd o fewn y sir ac yn edrych am ffyrdd o feirioli'r risg hwnnw. Mae yna nifer o gynlluniau lle gellir gwneud cais am grantiau i gwblhau gweithfeydd ond byddai hynny yn ddibynnol ar gyllid cyfatebol gan y Cyngor. Y cynlluniau dan sylw a'r risg sy'n cael ei warchod yw -

- **Cei Aberdyfi** - strwythur sy'n gwarchod yr ardal tu cefn iddo rhag erydiad ac yn cynnal nifer o wasanaethau allweddol yn Aberdyfi;
- **Promenâd y Gogledd Abermaw** - Mae hyn i ddatgloi buddsoddiad o £ 1.6m i amddiffyn 200 eiddo rhag llifogydd.
- **Gerddi Traphont, Abermaw** - Mae hyn i ddatgloi buddsoddiad o £ 1.6m i amddiffyn 50 eiddo rhag llifogydd a fydd hefyd yn cynorthwyo gyda'r broblem tywod yn y dref;
- **Traeth Crugan Pwllheli** - Mae'r pres yma i ddatgloi £2m o fuddsoddiad i amddiffyn 200 o dai ym Mhwllheli.
- **Atgyweirio wal a gwaith traenio yn Hirael Bangor** - Cynorthwyo strategaeth hirdymor a diogelu rhag llifogydd ar gyfer ardal Hirael ym Mangor. Amddiffyn hyd at 120 o gartrefi a seilwaith allweddol.
- **Ffordd y Traeth , Y Felinheli** - Mae hyn i ddatgloi buddsoddiad o £800k i amddiffyn 33 eiddo rhag llifogydd.

**Cynlluniau Adnewyddu**

47. **Fflyd Cerbydau (£2,037,000) -** Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn defnyddio cerbydau er mwyn cyflawni gwasanaethau, a thra bod rhai adrannau yn adnewyddu'r cerbydau hynny drwy sefydlu Cronfa Adnewyddu ar eu cyfer, mae eraill yn ddibynnol ar y rhaglen gyfalaf i'w hadnewyddu. Y swm dan sylw yma sydd ei angen i adnewyddu'r cerbydau dan sylw dros y cyfnod 10 mlynedd.

48. **Offer Technoleg Gwybodaeth (£7,215,360)** – Yn yr un modd, mae defnydd technoleg gwybodaeth yn allweddol bellach i holl wasanaethau'r Cyngor ac mae angen adnodd i adnewyddu'r offer hwnnw wrth iddo ddod i ddiwedd ei oes. Y swm yma yw'r swm sydd ei angen i wneud hynny dros gyfnod 10 mlynedd y Cynllun.

## Rhan B – CYNLLUNIAU LLE BYDD YN RHAID EU CYFARCH DRWY DDULL ARALL

49. **Adran Addysg - Cwblhau’r adolygiad o drefniadaeth ysgolion ym Mangor. (£6,370,000)**

50. Mae 'r Cyngor a Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi £12miliwn ym Mand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru yn y sector gynradd ym Mangor. Mae'r buddsoddiad pellach hwn ym Mand B fyddai’n gweld Llywodraeth Cymru yn ariannu 65% o gyfanswm cost y cynllun o £18.2m yn allweddol er mwyn adeiladu ar, a chwblhau'r gwaith, o fuddsoddi yn addysg yn ardal Bangor.

51. Fodd bynnag yn wyneb y cyfyngiadau ariannol sydd arnom; y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cyflawni cynlluniau Addysg a nodir ym mharagraffau 18 i 20 o’r cynllun hwn, a’r flaenoriaeth gymharol a roddwyd i’r cynllun yma, mae angen ystyried dull arall o’i gyflawni.

52. Mae yna bosibilrwydd y gallasai cost y cynllun ol-16 a nodir ym mharagraff 18 y Cynllun fod yn llai na’r hyn a glustnodwyd ar ei gyfer, ac os felly, byddwn yn gwyro unrhyw adnodd fyddai’n cael ei ryddhau tuag at y cynllun yma.

53. Os nad oes lleihad yng nghost y cynllun hwnnw neu os nad yw’n ddigonol, os yw’n parhau i fod yn flaenoriaeth i’r Adran Addysg, mae modd cyflawni’r cynllun drwy fenthyca arian ychwanegol i wneud hynny ond byddai angen i’r Adran Addysg ddarganfod yr adnoddau refeniw i dalu cost y benthyciad hwnnw.

54. **Adran Amgylchedd - Delio gydag ol groniad cynnal a chadw. (£14,000,000).**

55. Ar ddechrau'r Cynllun asedau diwethaf roedd gennym £27m o ol groniad cynnal a chadw oherwydd nad oeddem wedi bod yn buddsoddi digon yng nghynnal a chadw ein hadeiladau. Yn sgil y gwariant a roddwyd o'r neilltu yn y cynllun diwethaf mae'r swm yma bellach lawr i £14m. Os am allu delio gyda'r holl broblemau cyflwr sydd wedi eu hadnabod yn ein hadeiladau ar hyn o bryd e.e. Toeau'n gollwng, ffenestri wedi dod i ddiwedd eu hoes, tamprwydd, ceginau a thoiledau mewn cyflwr gwael ayb. Mae angen buddsoddiad uwchben y gyllideb cynnal a chadw refeniw sydd yn cael ei wario i geisio osgoi i'r broblem fynd yn waeth.

56. Byddai'r buddsoddiad yma yn cwrdd â'r holl ddiffygion ac yn osgoi'r risg o orfod cau adeilad oherwydd nam allasai amlygu ei hun oherwydd y diffyg hanesyddol. Fodd bynnag mae’r swm mor enfawr fel na ellir cwrdd â’r gwariant os am gyflawni elfennau eraill allweddol o’r cynllun hwn.

57. Ar sail hynny felly ni fyddwn yn blaenoriaethu'r maes yma gan ddisgwyl i'r adran wyro adnoddau o faes cynnal a chadw refeniw os cyfyd sefyllfa lle bydd angen i adeilad gau o'r herwydd.

58. Ar ben hynny fodd bynnag os cyfyd unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn ystod cyfnod y cynllun hwn sydd heb eu hymrwymo yn barod ar gyfer unrhyw gynllun arall, byddwn yn cyfeirio'r derbyniadau cyfalaf hynny tuag at gael gwared a'r ol groniad cynnal a chadw yma. Byddwn hefyd yn dechrau ar y gwaith drwy ddarparu **£600,000** o adnoddau'r Cynllun Asedau.

59. **Adran Oedolion, Iechyd a LLesiant - Grantiau ar gyfer Tai Gwag (£3,000,000)** - Byddai'r buddsoddiad yma yn cyllido Cynllun Tai Gwag y Cyngor sy'n dod a 60+ o dai gwag yn ol i ddefnydd yn flynyddol. Heb yr adnodd ni ellir parhau gyda'r cynllun. Mae Cyngor Gwynedd wedi arloesi yn y maes a'r unedau tai sy'n cael eu hadfer ac yn cael ei hailgylchu ar gyfer darparu llety i bobl ar y gofrestr tai a'r digartref. Rhagwelir y byddai lleihau'r buddsoddiad yn cynyddu'r galw ar y gofrestr a'r cyfnod i gael llety parhaol.

60. Mae'r cynllun tai gwag hefyd yn cefnogi'r cynllun prynwyr tro cyntaf, drwy gynnig cymorth iddynt ddod a thai gwag yn ol i ddefnydd. Mae gwariant tai gwag wrth gwrs yn denu buddsoddiad preifat ychwanegol o fewn ffiniau'r Sir. Amcangyfrifir rhwng 2008 a 2017 y gwariwyd £3.9m o arian y Cyngor ar dai gwag a arweiniodd at fuddsoddiad preifat pellach o £10.5m.

61. Fodd bynnag, gan ystyried y symiau sydd eisoes yn cael eu darparu yn y Cynllun yma ar gyfer maes tai, a'r adnodd sydd ar gael, a chan wybod fod yna symiau sylweddol am fod ar gael dros y 10 mlynedd nesaf i gyflawni Strategaeth Tai'r Cyngor byddwn yn trosglwyddo'r cynllun yma i gael ei asesu fel rhan o'r drefn blaenoriaethu ar gyfer yr adnoddau fydd ar gael ar gyfer y Strategaeth Tai.

62. **Tai Gofal Estynedig (£2,500,000)** – Fel y nodir yng nghymal 31 o'r Cynllun hwn bwriedir darparu adnodd ar gyfer un cynllun tai gofal estynedig ychwanegol ond bydd yn rhaid trosglwyddo'r ystyriaeth o ail gynllun ychwanegol i'w ystyried o ran blaenoriaethau'r Strategaeth Tai.

## Rhan C – CYNLLUNIAU LLE BYDD ANGEN AROS I WELD A ALLWN YCHWANEGU AT YR ADNODD FYDD GENNYM CYN Y GELLIR CYFLAWNI.

63. **Grantiau er mwyn gwella cyflwr a diogelwch tai is safonol (£4,000,000)** - Byddai'r buddsoddiad yma yn ariannu cynlluniau sy'n gwella cyflwr a diogelwch tai is-safonol. Defnyddir arian fel cyfraniad Gwynedd i ddenu arian cyfatebol o ffynonellau allanol ac i ysgogi gwelliannau pellach. Mae nifer o gynlluniau sy'n cael eu gweinyddu ar ran Cynulliad Cymru yn ddibynnol ar gyfraniad cyfatebol y Cyngor. Byddai yn anodd i'r Cyngor

ddenu arian gan y Llywodraeth a gweithredu a chymell gwaith adferol heb ymyrraeth a gwneud cyfraniad ariannol. Rydym yn estyn cymorth i unigolion bregus fyddai ddim yn gallu goruchwylio gwelliannau angenrheidiol eu hunain. Mae'r arian yn galluogi'r Cyngor roi benthyciadau llog isel i ymgeiswyr na fyddai yn cael cymorth fel arall, ac yn galluogi pobl i barhau yn eu cartrefi. Mae'r arian hefyd yn topio fyny DFG's, sy'n osgoi pobl hyn a bregus fod angen gofal parhaol.

64. **Adnewyddu Offer Meysydd Chwarae (£516,000)** - Heb y buddsoddiad yma ni fyddai yna adnewyddu offer chwarae ar ddiwedd eu hoes gweithredol. Yn y 10 mlynedd, rhagwelir y bydd angen adnewyddu'r offer chwarae a gwella'r mesurau diogelwch mewn 42 allan o'r 131 o feysydd chwarae sydd gan y Cyngor.

65. **Gosod offer talu am ddefnyddio toiledau cyhoeddus (£165,000)** - Er mwyn hwyluso gallu trosglwyddo rhai o'r toiledau cyhoeddus i eraill byddai'n ddymunol gosod offer codi tal ar gyfer y toiledau hynny fel bod y sawl fyddai'n eu cymryd drosodd yn cael elfen o incwm allan ohonynt. O beidio â gwneud hynny mae yna gwestiwn a fydd sefydliadau eraill mor barod i gymryd cyfrifoldeb drostynt.

66. **Uwchraddio system traenio diffygiol yn Nhremadog (£75,000)** - Cynllun i ddatgloi £500k o fuddsoddiad i amddiffyn 20 o dai yn Nhremadog.

67. **Porth Waterloo Caernarfon (£55,000)**- Cynllun i amddiffyn mynediad i'r traeth islaw Porth Waterloo yng Nghaernarfon. Mae'r gwaith yn gysylltiedig â wal môr sy'n methu sy'n dal y tir yn ôl i'r llwybr beicio a gwarchod 8 tŷ rhag problemau llifogydd.

68. **Penpaled Criccieth (£45,000)**– Cynllun amddiffyn yr arfordir i warchod 4 o dai

69. **Pwll Nofio Bangor. (£500,000)** Ar hyn o bryd mae ein cynnig ffitrwydd a chwaraeon "sych" yn gyfyngedig iawn i drigolion Bangor oherwydd diffyg gofod addas yn yr adeilad presennol. Yn ychwanegol, mae dyluniad presennol yr ystafelloedd newid yn cyfyngu ar faint o wersi nofio rydym yn gallu eu cynnig sydd yn achosi rhestrau aros. Rydym hefyd yn agored i her posibl gan grwpiau sydd wedi'i gwarchod trwy ddeddfwriaeth cydraddoldeb e.e. diffyg gofod newid merched yn unig a gofod cyfyng ar gyfer pobl anabl. Mae hefyd yn anaddas i ddefnyddwyr yr ystafell ffitrwydd e.e. cawodydd agored/ochr pwll yn unig.

70. **Hafan Pwllheli (£700,000)** - Mae incwm yr Hafan Pwlheli yn deillio o'r lleoedd sydd yna i gychod yno. Mae'r pontwns a'r stanciau sydd yno yn

mynd yn ol i'r 90au ac mae angen eu hadnewyddu. Byddai peidio â gwneud hynny yn golygu dirywiad mewn cyflwr yn arwain at yr angen i dynnu pontŵns o'r Hafan, gan leihau'r incwm (ac felly'r elw) sy'n cael ei greu. Byddai lleihad yn niferoedd cwsmeriaid hefyd yn debygol o gael effaith ar fusnesau o gwmpas yr Hafan. Rhagwelir angen am fuddsoddiad pellach yn 2030.

71. **Neuadd Dwyfor, Pwllheli. (£350,000)** Cyflwynwyd **c**ynllun gwerth £340,000 i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwneud gwelliannau i'r Neuadd - ailwampio'r llyfrgell (prosiect uchod), creu derbynfa ar y cyd, ailwampio'r cyntedd a datblygu gofod paned / mynediad diwifr a phapurau newydd yno a chreu ystafell weithgaredd. Ni fu'r cais yn llwyddiannus oherwydd pwysau ar y gronfa genedlaethol. Heb fuddsoddi ni fydd yr adeilad yn gallu cynnig y profiad fyddai cwsmeriaid yn ei ddisgwyl a gall arwain at leihad yn yr incwm. Byddai buddsoddi yn yr adeilad yn creu sail llawer cryfach i'r Cyngor drafod trosglwyddo'r gwasanaeth gyda phartneriaid. Pe na fydd buddsoddiad, na throsglwyddiad yn y tymor byr / canolig, yna bydd risg i hyfywdra'r Theatr/Sinema yn y Neuadd ac oblygiadau wedyn i'r Llyfrgell a mannau cyfarfod Cyngor/cymunedol sydd ar y safle. Byddai oblygiadau hefyd i'r Cyngor gan fod gofod y Theatr o fewn y Neuadd wedi ei restru a byddai cyfrifoldeb ar y Cyngor i'w warchod. Petai'r Neuadd yn cau byddai'n cael effaith nid yn unig ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, ond hefyd ar fusnesau canol tref Pwllheli a'r ardal ehangach (adnodd tywydd gwlyb i ymwelwyr).

72. **Canolfan Hamdden Plas Ffrancon, Bethesda. (£100,000)** Ar hyn o bryd, mae yna ran o'r Ganolfan Hamdden yn cael ei ddefnyddio gan Dechrau'n Deg ac incwm yn deillio o hynny. Pe byddai'r cynllun hwnnw yn dod i ben ni fyddai'r gofod yn addas i ar gyfer sicrhau gallu creu incwm ohono a byddai angen gwrio i ddod ag ef yn ol i ddefnydd fel y gellid creu incwm. Mae hyn yn ddibynol ar Dechrau'n Deg yn dod i ben wrth gwrs.

73. **Gwella'r rhwydwaith lonydd glas. (£60,000)** Rhaglen fyddai hon i ddiweddaru a gwella arwyddion a gwybodaeth i ddefnyddwyr yn y llefydd prysuraf ar hyd y lonydd glas. Byddai hefyd yn darparu rhaglen o welliannau i fynedfeydd ar hyd y rhwydwaith er mwyn hwyluso defnydd gan fwy o bobl a gwella diogelwch defnyddwyr ger cyffyrdd priffyrdd ynghyd a darparu rhaglen o waith ffensio a gwarchod waliau terfyn lle mae'r cyfrifoldeb yn disgyn ar y Cyngor.

**74. Addasu Llyfrgell Pwllheli. (£120,000)** Mae gwaith wedi ei gwblhau i gyflwyno system hunan wasanaeth i rwydwaith llyfrgelloedd Gwynedd yn 2017/18. Ond 'roedd gofod Llyfrgell Pwllheli yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i fanteisio ar gyfleoedd i wella effeithlonrwydd yn sgil y system

newydd. Mae angen buddsoddiad i addasu'r adeilad a manteisio yn llawn ar gyfleoedd cyd-leoli gyda derbynfa'r Theatr/Sinema sydd yn yr adeilad.

75. **Canolfan Hamdden Dwyfor (£75,000**) - Nid oes digon o leoedd parcio bellach ar y safle i ddygymod gyda'r nifer defnyddwyr ac maent yn gorfod parcio ar y stryd neu strydoedd cyfagos. Budd y cynlyn fyddai gwella profiad defnyddwyr y ganolfan a lleihau problemau parcio stryd i drigolion cyfagos.

76. **Addasiadau i Lyfrgell Bangor**. **(£300,000)** Mae Llyfrgell Bangor yn cynnig darpariaeth gofod cyfyng iawn i ddefnyddwyr o ystyried ei bod yn un o brif lyfrgelloedd Gwynedd, yn un o'n cymunedau mwyaf, sydd hefyd yn ddinas Prifysgol. Nid oes digon o ofod yn yr adeilad presennol i wneud unrhyw fath o waith ymestynnol a gwaith partneriaethol gydag asiantaethau allanol. Mae ein gallu felly i ddarparu gwasanaeth llyfrgell gyflawn megis gweithgareddau darllen (Clybiau Darllen) gweithgareddau iechyd a lles (sesiynau gwybodaeth, sesiynau codi ymwybyddiaeth ofalgar) gweithgareddau plant ( sesiynau stori a rhigwm i fabanod, gweithgareddau llythrennedd teulu) yn isel iawn o'i gymharu â threfi eraill y sir. Nid oes cyfleoedd i hyrwyddo'r llyfrgell fel hwb gwybodaeth gymunedol ychwaith fel sydd wedi digwydd yn llwyddiannus mewn rhai o'r llyfrgelloedd eraill.

77. Os bydd adnoddau pellach yn dod i'n rhan yn ystod cyfnod y Cynllun, byddwn yn eisio cyflawni'r cynlluniau a nodir yn rhan C yn y drefn y maent yn ymddangos uchod, sy'n cyd-fynd a'r drefn y rhoddwyd yr aelodau iddynt yn ystod y broses ymgynghori.

## CASGLIADAU

78. Cyfanswm cost y cynlluniau a nodir yn Rhan A ac yng nghymal 57 Rhan B yw £67m sydd £5m islaw'r swm damcaniaethol o £72m sydd yn debygol o fod ar gael i ni dros y cyfnod.

79. Fodd bynnag, rhaid bod yn fyw i'r ffaith fod yna ofynion eraill am godi yn ystod y cyfnod 10 mlynedd ac nid fyddai'n briodol i ni adael ein hunain mewn sefyllfa lle na fyddem yn gallu cwrdd â'r gofynion hynny.

80. Bwriedir cadw'r £5m a nodir uchod yn ol felly er mwyn cael £0.5m y flwyddyn i fedru ymateb i unrhyw ofynion sy'n codi.

81. Bydd angen ystyried blaenoriaeth unrhyw fater sy'n codi yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun hwn. Os na fydd yna ofyn yn dod i'r amlwg mewn unrhyw flwyddyn, yna gellir rhyddhau'r adnodd i wireddu'r cynlluniau a nodir yn Rhan C.

82. Mae'n bosibl hefyd y bydd yna wybodaeth bellach yn dod i law, boed yn ofynion sylweddol pellach; addasiad sylweddol yn yr adnodd sydd ar gael neu asesiad cydraddoldeb manylach fydd yn effeithio ar y gwaith blaenoriaethau a roddwyd yn y Cynllun a bydd angen adolygu'r Cynllun hwn felly o bryd i'w gilydd.